CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 3 CHWEFROR 2009

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng M Powell-Jones

Cynghorwyr

H Edwards, R Anderson, O T Owen, I C Thomas, A Y Williams, A W Bohana, A Kirk, M Davies, R Bonner-Pritchard, M Thomas, W Davies, A Roberts

Gweddïau

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Caplan y Maer Parch G Williams

1. Ymddiheuriadau

G Parry, H W Roberts, W R Owen, W T Owen

2. Cyhoeddiadau'r Maer

- 16 Ionawr – Castell Caernarfon- agoriad swyddogol i'r mynedfa newydd
- 22 Ionawr – Clwb Ieuenctid yn dathlu 30 mlynedd
- 29 Ionawr – Chronicle yn dathu 200 mlynedd
- 31 Ionawr – cinio blynyddol Trefi Caerog

3. Datgan Buddiant Personol

I C Thomas, H Edwards, R Anderson – Cynllunio

4. Eitemau Brys

Dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 6 Ionawr 2009
ii. Pwyllgor Cyffredinol 20 Ionawr 2009

Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

6. Cynllunio

I ystyried y ceisiadau
Penderfynwyd
Anfon rhestr argymhellion ymlaen i'r awdurdod priodol

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a c hyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

8. Cysoni Cyfrifon
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

9. Maerolaeth

Enwebu Maer etholedig am y flwyddyn 200 9 – 2010
Penderfynwyd
Ethol Cyng H W Roberts fel Maer Etholedig ar gyfer 2009 -2010

10. Rhybudd o Gynnig Cyn g. R. Anderson

Par: Cysgodfan bws – Muriau Park
Penderfynwyd
Symud i'r Pwyllgor Cyffredinol nesaf

11. Rhybudd o Gynnig Cyng. R. Bonner Pritchard

Par: Doc Fictoria
Penderfynwyd
Symud i'r Pwyllgor Cyffredinol Nesaf

12. **Cyng. R. Anderson**

Par: Taflenni (eitem wedi symud o'r Pwyllgor)
Penderfynwyd
Diolch am y taflenni

13. Sefydliad Aran Cymru

Taith dros fywyd

Penderfynwyd
Symud i panel cyllid a gofyn iddynt gwblhau ffurflen gais

14. Adroddiad Cyng. A. Bohana ar ôl mynychu Cynghorau mwy Unllais

Ken Thomas – Rheolwr Gwerth Cymru yn sôn am gynllun lle mae pobl yn medru bod yn rhan o system i geisio arbed costau wrth cyd brynu offer
Blachere yn roi cyflwyniad proffesiynol iawn ar oleuadau Nadolig (y clerc eisoes wedi trefnu cyfarfod)
Edward Lewis Comisiwn Ffiniau Llywodraeth leol yn sôn am deddf newydd – copi i bawb heno
Ac yn chwilio i mewn i niferoedd o Gynghorwyr sir mewn ardaloedd
Penderfynwyd
Derbyn a diolch am yr adroddiad

15. Adroddiad Y Maer Y Cyng. M. Powell Jones ar ôl mynychu gweithdy Groundwork

Diwrnod wedi trefnu gan Groundwork o Wrexham a cefnogwyd gan y Cynulliad
Merch ifanc Ffion Roberts wedi ennill cystadleuaeth i fynd o gwmpas yn lledaenu'r neges am sut y gall pobl gymryd camau syml i wneud ôl troed carbon yn llai.
3 siaradwr gwadd

Andy Middleton - Twr Y Felin- yn dweud bod na ormod o fwyd (40%) yn cael ei ddefnyddio i wneud petrol. Bod stoc pysgod i lawr a bod lefel y mor yn codi

Angen i gymunedau cael sgiliau tyfu bwydydd eu hunain dim ond gwerth 3 diwrnod o fwyd sydd yn dod ar gefn lori archfarchnad!
Nad oedd ef wedi hedfan ers 6 mlynedd , ond yn amlwg wedi dod mewn car i'r cyfarfod.
Mi ddywedodd bod Cynghorau cymunedol yn gwneud dim! Ond mi roddodd y clerc nodyn ar wal graffiti yn nodi nad oedd hyn yn gywir ym mhob man

Amanda Dean - sydd wedi bod yn ymwneud a ymchwiliad trefi
Siaradwr call iawn yn nodi bod rhaid i ni fod yn realistic a gweithio i leihau y footprint ond bod ni yn cyflawni hyn trwy greu grwpiau bychain o bobl i hybu pethau fel gerddi cymunedol.
Cynghorau tref a chymuned angen siarad a' i henoed lleol i ddefnyddio eu profiadau nhw. Os wnawn ni ddechrau rwan y bwriad ydi cyrraedd y nod erbyn 2025

Ac yna Marcus Drigstocke sydd yn adnabyddus o rhaglenni teledu fel Have I got news for you.
Diddorol iawn a realistig iawn. Un sydd yn hedfan i weld ei chwaer yn Canada ond yn gwneud ei orau gan defnyddio paneli solar ar ei dy a bylbiau ac yn y blaen.
Mae o hefyd wedi bod allan i'r artic i geisio darganfod mwy am yr effaith sydd yna gweld cymaint mae'r rhew wedi toddi mewn cyfnod o 12 mis

Penderfynwyd
Diolch a derbyn yr adroddiad

16. Cwestiynau
Pam bod pobl Constantine Terrace ddim yn cael bininau?

Cyfarfod yn gorffen am 7.00

Arwyddwyd..... Dyddiad.....